

bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 233 (Cymru) – 18 Mawrth 2019

Diwygio'r canfas: Datganiad polisi interim ar ddiwygio'r canfas a chanllawiau ar brofi data

Ar 12 Mawrth, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet [ddatganiad polisi interim ar ddiwygio'r canfas](#) i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Mae'r ddogfen yn drosolwg o ddiwygiadau a gynllunnir i wella'r canfas blynyddol o etholwyr a wneir bob blwyddyn gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ledled Prydain Fawr.

Mae gofyniad statudol i'r Comisiwn ymgynghori ar y cynigion, ac ry'n ni'n disgwyl i hyn gychwyn yn ystod wythnos sy'n cychwyn 25 Mawrth. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi nodi, fel rhan i'r ymgynghoriad yma, y gall y Comisiwn argymhell newidiadau i'r polisi. Oherwydd hyn, ac o ganlyniad i drafodaethau sy'n parhau gyda llywodraethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban, ar roi'r diwygiadau ar waith, mae'n bosib y bydd y polisi yn y datganiad yn newid.

Wrth baratoi ar gyfer y diwygiadau, bydd gofyn bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cymryd rhai camau penodol i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer y prawf data cenedlaethol, y disgwylir iddo ddigwydd ym mis Ionawr 2020, ac ar gyfer y paru data lleol diamed.

I helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i baratoi, mae Swyddfa'r Cabinet wedi paratoi canllawiau i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol trwy'r broses profi data, ac mae'r rhain ar gael ar y dolenni canlynol:

- [Rhan I: Paratoi Prawf Data](#)
- [Rhan II: Paru data lleol](#)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch y datganiad neu'r canllawiau, e-bostiwch [mrd-engagement@cabinetoffice.gov.uk](mailto:mr-engagement@cabinetoffice.gov.uk)

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

**Diwygio'r canfas:
Datganiad polisi interim ar
ddiwygio'r canfas a
chanllawiau**

Gwybodaeth am, a dolenni at y Datganiad Polisi Interim ar Ddiwygio'r Canfas a chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ni gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol trwy'r broses profi data.

**Eithrio treuliau sy'n
ymwneud ag anabledd ar
gyfer ymgeiswyr etholiad
cyffredinol Senedd y DU**

Gwybodaeth am ddeddfwriaeth sy'n caniatáu eithrio treuliau sy'n ymwneud ag anableddau o derfynau gwariant ymgeiswyr.

Rydym yn cyhoeddi bwletinau yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'n cylchlythyr Gweinyddiaeth Etholiadol](#).

[Rhowch wybod i ni](#) am unrhyw newidiadau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn helpu i ni sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael eu penodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Eithrio treuliau sy'n ymwneud ag anabledd ar gyfer ymgeiswyr etholiad cyffredinol Senedd y DU

Mae deddfwriaeth wedi'i gwneud sy'n eithrio treuliau sy'n berthnasol i anabledd o'r terfyn gwariant ymgeiswyr yn etholiadau cyffredinol ac isetholiadau Senedd y DU.

Mae [Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl \(Eithrio Treuliau Etholiadol\) \(Diwygio\) 2019](#) wedi'i lofnodi gan Weinidog y Cyfansoddiad, ac mae bellach mewn grym. Mae'r eithriad hefyd yn berthnasol i ymgeiswyr mewn etholiadau eraill yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Cronfa EnAble ar gyfer Swyddi Etholedig i ymgeiswyr anabl

Mae Swyddfa Cydraddoldeb Llywodraeth y DU wedi creu cronfa interim i gefnogi ymgeiswyr anabl mewn rhai etholiadau hyd at fis Mawrth 2020. Mae hyn yn cynnwys unrhyw isetholiadau cyffredinol Senedd y DU.

I gael mwy o wybodaeth am y gronfa a'r etholiadau mae'n berthnasol ar eu cyfer, cysylltwch â [gweinyddwr y cynllun](#).

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion tebyg ar gyfer etholiadau Cymreig a bydd mwy o fanylion yn cael eu darparu yn y man.

.....
Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmniau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Textphone: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2019

Ry'n ni'n anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data'r DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice><https://www.comisiwnetholiadol.org.uk/privacy-notice>)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr yma mwyach, gallwch [ddad-danysgrifio](#) unrhyw bryd.